# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-09-10-p4: 13 Mai 2010

## Ymateb y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i wahoddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i roi tystiolaeth i'w ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant

1. Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth hon a gyflwynir yn canolbwyntio ar y Byrddau Lleol Diogelu Plant o safbwynt diogelu pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Byddem yn fodlon darparu gwybodaeth bellach a allai fod o gymorth i'r Pwyllgor.

### Cefndir: Rôl yr YJB

2. Mae'r YJB yn goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae'r canlynol ymhlith ei gyfrifoldebau statudol:

Cynghori Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â'r modd y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu, a'r safonau ar gyfer y system

Monitro perfformiad y system cyfiawnder ieuenctid

Prynu lleoedd mewn llety diogel ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u remandio neu'u dedfrydu i ddalfa gan y llysoedd, a'u lleoli mewn sefydliadau priodol

Adnabod a hyrwyddo arfer effeithiol

Rhoi grantiau i awdurdodau lleol a chyrff eraill i gefnogi gwaith datblygu arfer effeithiol

Comisiynu ymchwil a chyhoeddi gwybodaeth.

3. Mae'r YJB yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, sy'n cynnwys y deunaw o Dimau Troseddau Ieuenctid a'r ddau ddarparwr llety diogel sydd yng Nghymru. Nid yw'r YJB yn rheoli'r un o'r gwasanaethau hynny'n uniongyrchol.

### Pwyntiau cryno

Rhaid i Fyrddau Lleol Diogelu Plant a byrddau rheoli Timau Troseddau Ieuenctid gydweithio i ddiogelu plant a phobl ifanc, a hynny ar sail eglurder lleol ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Yn ei ganllawiau i Fyrddau Rheoli[1] mae'r YJB yn nodi'n glir ei fod yn disgwyl i Dimau Troseddau Ieuenctid fynychu Byrddau Lleol Diogelu Plant a gweithredu'n unol â gweithdrefnau lleol ar gyfer amddiffyn plant.

Mae angen i Fyrddau Lleol Diogelu Plant, Timau Troseddau Ieuenctid ac awdurdodau lleol adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran gwaith diogelu, drwy adnabod yn well y cyfrifoldeb sydd ganddynt ar y cyd i sicrhau lles plant a phobl ifanc.

Mae adroddiadau i Fyrddau Rheoli Timau Troseddau Ieuenctid ar ddigwyddiadau difrifol, ac adroddiad blynyddol yr YJB sy'n dadansoddi adroddiadau ar ddigwyddiadau difrifol, yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i Fyrddau Lleol Diogelu Plant ddysgu gwersi ynghylch diogelu plant.

### Byrddau Lleol Diogelu Plant a Byrddau Rheoli Timau Troseddau Ieuenctid

4. Mae'r deunaw o Dimau Troseddau Ieuenctid sydd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol. O reidrwydd, mae pob Tîm Troseddau Ieuenctid yn pontio partneriaeth diogelwch cymunedol yr ardal leol a'r bartneriaeth plant a phobl ifanc. Caiff Timau Troseddau Ieuenctid eu harwain gan ganllawiau'r YJB a llywodraeth y DU a pholisi plant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Drwy ymwneud â chynllunio Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, mae Timau Troseddau Ieuenctid yn ceisio sicrhau eu bod yn cyfrannu at wireddu'r Deg Hawl a'r Saith Nod Craidd i blant yng Nghymru. Yn y modd hwnnw, gallant gyfrannu at yr ystod lawn o weithgareddau diogelu, o hyrwyddo lles emosiynol a chorfforol i gymryd rhan mewn trefniadau amddiffyn plant.

5. Mae gan bob Tîm Troseddau Ieuenctid, fel corff amlasiantaeth statudol, fwrdd rheoli sy'n goruchwylio'r gwasanaeth. Gall y bwrdd rheoli hwn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi gwaith diogelu mewn ardal benodol. Mae'r gofyniad sy'n deillio o Ddeddf Plant 2004 a Rheoliadau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant (Cymru) 2006, sef y dylai Timau Troseddau Ieuenctid gael eu cynrychioli ar lefel uchel ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant, yn adlewyrchu hynny. Dylai'r gofyniad hwn barhau fel bod y cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn cael ei gynnal, a bod y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gallu ymwneud yn llwyr â'r agenda ddiogelu leol.

6. Mae'r YJB o'r farn bod byrddau rheoli Timau Troseddau Ieuenctid lleol, neu "Fyrddau Partneriaethau Timau Troseddau Ieuenctid", yn hollbwysig i lwyddiant mentrau rhyngasiantaethol lleol i leihau'r niwed y gall plant a phobl ifanc ei achosi i'w hunain, neu bobl eraill. Cred yr YJB ei bod yn bwysig bod Timau Troseddau Ieuenctid yn aelodau effeithiol o Fyrddau Lleol Diogelu Plant, yn ogystal â phartneriaethau lleol eraill megis y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ac mae'n debygol y bydd hynny'n cael ei ailbwysleisio mewn canllawiau diwygiedig ar bartneriaethau Timau Troseddau Ieuenctid, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

7. Mae'n hanfodol bod rolau'r awdurdodau perthnasol ar Fwrdd Lleol Diogelu Plant yn parhau'n glir. Er enghraifft, mae angen i'r Bwrdd

Lleol Diogelu Plant sy'n ymdrin â'r ardal y daw plentyn ohoni'n wreiddiol ond nad yw'n byw ynddi ar hyn o bryd, ddeall ei gyfrifoldebau parhaus o ran diogelu'r plentyn hwnnw.

### Byrddau Lleol Diogelu Plant, gwasanaethau plant a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn cydweithio i ddiogelu plant

8. Mae dadansoddiad o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid statudol blynyddol Timau Troseddau Ieuenctid yn dangos bod y rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid yn sôn am ymgysylltiad strategol da â threfniadau diogelu lleol. Mae Timau Troseddau Ieuenctid hefyd yn mynegi lefel uchel o ymrwymiad i weithgareddau diogelu gweithredol, megis gweithgareddau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

9. Er ei bod yn ddealladwy bod Timau Troseddau Ieuenctid yn rhoi blaenoriaeth i waith amddiffyn plant yn y gwaith diogelu ehangach a wnânt, ceir rhai Timau Troseddau Ieuenctid sy'n dangos agwedd integredig a chyfannol at yr agenda ddiogelu ehangach.

10. Mae'r canlynol ymhlith rhai enghreifftiau a nodwyd o arfer nodedig sy'n dod i'r amlwg o gynlluniau cyfiawnder ieuenctid:

Y defnydd a wna Tîm Troseddau Ieuenctid Sir y Fflint o 'banel iechyd' wythnosol er mwyn nodi problemau diogelu a mynd i'r afael â nhw'n gynnar, yn ogystal ag ymdrin ag anghenion mwy acíwt; a

Gwaith grŵp Tîm Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy a Thorfaen gyda merched sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, neu sydd wedi bod yn dyst i gamdriniaeth o'r fath.

11. Fodd bynnag, er y ceir enghreifftiau o arfer nodedig, ceir meysydd o hyd lle mae angen gwella. Y ffactorau mwyaf cyffredin sy'n rhwystro gallu Timau Troseddau Ieuenctid i ddiogelu plant a phobl ifanc yw'r ffactorau sy'n ymwneud â throthwyon i blant mewn angen, a gwaith cynllunio i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hynny y nododd Tîm Troseddau Ieuenctid eu bod yn agored i niwed. Yn y cynlluniau cyfiawnder ieuenctid a gyflwynwyd ar gyfer 2008/09, nododd wyth Tîm Troseddau Ieuenctid fod trothwyon uchel o ran cymhwysedd i blant mewn angen mewn gwasanaethau plant yn golygu nad oedd achosion a gâi eu hatgyfeirio'n cael eu derbyn yn aml. Yn ei hadroddiad ar Gymru, gwelodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fod y diffyg ymateb hwn mewn nifer o ardaloedd yn golygu bod ymarferwyr weithiau'n amharod i gyfeirio achosion priodol at wasanaethau plant.

12. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ynghyd ag arolygiaethau eraill wedi arwain arolygiadau o'r holl Dimau Troseddau Ieuenctid sydd yng Nghymru a Lloegr. Roedd asesu gwaith a wneir ar y cyd gan Dimau Troseddau Ieuenctid a'u partneriaid i amddiffyn plant a phobl ifanc a'u cadw'n ddiogel yn rhan annatod o'r arolygiadau. Yn gyffredinol, gwelodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fod camau gan y Timau Troseddau Ieuenctid a'u partneriaid i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n debygol o droseddu, yn effeithiol mewn 65 y cant o achosion. Mae'r dyfyniad canlynol o adroddiad Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn amlygu rhai o'r pryderon.

"Ym mwyafrif yr achosion, canfuwyd bod y TTIau yn gwirio cronfa ddata'r gwasanaethau cymdeithasol i weld a oeddent yn gwybod am y plant neu'r bobl ifanc eisoes a bod y gwaith cysylltu a chydweithio rhwng y ddwy asiantaeth yn amrywio. Serch hynny, roedd ansawdd y camau a gynlluniwyd yn siomedig. Roedd ymddygiad 18 o blant a phobl ifanc wedi golygu eu bod yn agored i niwed ac roedd 30 ohonynt yn wynebu Risg o Niwed gan bobl eraill, gan gynnwys gan eu rhieni/gofalwyr. Paratowyd cynllun gweithredu agored i niwed mewn chwech o'r 39 achos perthnasol, ac, er bod pob un o'r cynlluniau'n diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc fel y'u haseswyd, roedd yn amlwg bod y camau dilynol yn annigonol."[2]

13. Fel yr YJB, gwelodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi fod Timau Troseddau Ieuenctid yn cael trafferth cael mynediad i wasanaethau plant ar ran plant a phobl ifanc, er bod gwaith integreiddio wedi cynyddu ar lefel strategol. Daeth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i'r casgliad bod angen i'r Timau Troseddau Ieuenctid a'u hasiantaethau partner roi mwy o sylw i gamau a gymerir i ddiogelu plant a phobl ifanc.

14. I fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn yn strategol, mae'r YJB wrthi'n trafod â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae wedi ymwneud yn weithredol â Fforwm Diogelu Plant Cymru, y mae'n aelod ohono.

15. Ceir darlun tebyg yng nghyswllt y bobl ifanc hynny sy'n agored i niwed yn ôl asesiad gan Dîm Troseddau Ieuenctid. Yn y cynlluniau cyfiawnder ieuenctid a gyflwynwyd ar gyfer 2008/09, cydnabu deg Tîm Troseddau Ieuenctid fod angen gwella dull ymarferwyr o gynllunio a chyflwyno ymyriadau i fynd i'r afael ag achosion a nodwyd o bobl sy'n agored i niwed. Yn arwyddocaol, gwelwyd cydberthynas agos rhwng y deg gwasanaeth a'r rheini a nododd broblemau gyda throthwyon cymhwysedd lleol ar gyfer gwasanaethau prif ffrwd. Nododd pum Tîm Troseddau Ieuenctid arall fod angen mynd i'r afael â diffygion o ran rheoli neu oruchwylio gwasanaethau'n gorfforaethol i'r rhai hynny y nodwyd eu bod yn agored i niwed.

16. Yn 2010/11, mae'r YJB yn bwriadu darparu canllawiau a chyngor ychwanegol i Dimau Troseddau Ieuenctid i wella gwaith asesu a gweithredu ymyriadau gyda phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

17. Yn aml, pobl ifanc sydd wedi'u dedfrydu neu'u remandio i ddalfa yw'r bobl fwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder ieuenctid. Felly, mae angen rhoi ystyriaeth benodol i waith diogelu'r grŵp arbennig hwn, ac mae angen i'r gwaith hwnnw gael cymorth parhaus gan wasanaethau plant a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant. Mae blaenoriaeth tri y cynllun cyflenwi ar gyfer Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn nodi'n glir y dylai pobl ifanc mewn dalfa gael eu cadw mewn amgylchedd sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac sy'n hybu adsefydlu, gan arwain at ailgartrefu llwyddiannus yn y gymuned.

18. Dan gynllun cyflenwi Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, mae'r YJB a Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi cynlluniau peilot sy'n ymwneud â phaneli cymorth ailgartrefu mewn naw o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r paneli amlasiantaeth hyn yn darparu

trosolwg o waith cynllunio ar gyfer y rheini sy’n gadael dalfa, ac maent yn gweithio i wella gweithdrefnau lleol ar gyfer mynd i’r afael ag anghenion y sawl sydd mewn perygl o gael eu cadw mewn dalfa. Disgwylir i’r paneli fod â llinellau atebolrwydd clir i’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, er mwyn darparu dull o nodi a rhannu gwybodaeth cyn gynted ag sy’n bosibl am bobl sy’n agored i niwed ymhlith y rheini sy’n gadael dalfa, a phlant eraill yn eu teuluoedd.

19. Mae gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot gyfrifoldebau i sicrhau bod trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer y llety diogel sydd o fewn eu ffiniau. Ochr yn ochr â hynny, mae gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc pob plentyn a’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gyfrifoldeb parhaus i ddiogelu plant, gan gynnwys cyfrifoldeb i’w hailgartrefu yn ardal eu cartref.

20. Er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni dyletswyddau perthnasol, mae’n bwysig bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar waith rhwng awdurdod lleol (yn enwedig y Bwrdd Lleol Diogelu Plant) a’r sefydliad diogel sydd yn ei ardal ddaearyddol, sy’n amlinellu’r modd y dylid ymdrin ag asesiadau plentyn mewn angen a chynnal yr asesiadau hynny, yn ogystal â’r modd y dylid ymdrin â honiadau’n ymwneud ag amddiffyn plant.

21. Mae’r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Plant 1989 mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc a leolir mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn bodoli ar ben y cyfrifoldebau cynllunio gofal ac ailgartrefu sy’n perthyn i awdurdod lleol cartref y person ifanc. Cadarnhaodd dyfarniad Munby (2002) nad yw’r swyddogaethau, y pwerau, y dyletswyddau, y cyfrifoldebau na’r rhwymedigaethau a osodir ar awdurdodau lleol gan Ddeddf Plant 1989 yn dod i ben am fod plentyn mewn llety diogel.

22. Roedd yr adolygiad annibynnol o ddulliau atal, 'The Independent Review of Restraint’[3] (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008), yn cynnwys argymhellion ychwanegol ynghylch gofynion ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant yng nghyswllt defnyddio dulliau o atal pobl ifanc. Derbyniwyd y rhain gan y llywodraeth, ac maent yn cynnwys:

Sicrhau bod staff Byrddau Lleol Diogelu Plant a thimau lleol amddiffyn plant, sy’n gyfrifol am ymchwilio i achosion a atgyfeirir ym maes amddiffyn plant, yn cael hyfforddiant ar y dulliau atal perthnasol a ddefnyddir gan unedau diogel eu hardal

Sicrhau bod cysylltiad effeithiol rhwng Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac unrhyw sefydliad diogel yn ei ardal, a sicrhau ei fod yn gallu craffu ar dechnegau atal, y polisïau a’r protocolau sy’n ymwneud â defnyddio dulliau atal, a’r digwyddiadau a’r anafiadau

Adrodd yn ôl yn flynyddol i’r YJB (neu’n amlach os oes pryderon).

23. Er mwyn cefnogi arferion diogelu da, mae’n hanfodol bod yr holl staff yn y system cyfiawnder ieuenctid, mewn Timau Troseddau Ieuenctid a llety diogel, yn cael eu hyfforddi i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Mae Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yr YJB ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys modiwlau penodol yn y Radd Sylfaen mewn Cyfiawnder Ieuenctid, sy’n cefnogi egwyddorion diogelu.

24. Mae datblygiad a hyfforddiant staff ynghylch diogelu, a ddarperir gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu’i bartneriaid, ar gael i Dimau Troseddau Ieuenctid, ac maent yn rhoi blaenoriaeth iddynt. Drwy hynny a thrwy ganllawiau, y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, a hyfforddiant ar y rhyngrwyd a gyflwynir gan y Brifysgol Agored, bydd y staff yn ymwybodol o’u dyletswydd i ddiogelu ac amddiffyn y plant a’r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

25. Ystyriaeth arall yw bod staff o asiantaethau cyfiawnder ieuenctid, yr heddlu a’r gwasanaeth prawf yn cael eu secondio i Dimau Troseddau Ieuenctid, ac na fydd ganddynt o reidrwydd yr un lefel o ddealltwriaeth ynghylch diogelu plant. Mae’n bwysig bod Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gweithio gyda Byrddau Rheoli Timau Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant digonol ar ddiogelu.

### Adolygiadau o achosion difrifol ac adolygiadau Timau Troseddau Ieuenctid o ddigwyddiadau difrifol

26. Mae’r YJB yn mynnu bod Timau Troseddau Ieuenctid yn cyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol lle mae plentyn neu berson ifanc wedi marw neu wedi ceisio cyflawni hunanladdiad tra’i fod dan oruchwyliaeth neu cyn pen tri mis i ddiwedd y cyfnod o oruchwyliaeth. Mae’n ofynnol i Dimau Troseddau Ieuenctid ddilyn proses benodol yr YJB wrth gynnal yr adolygiad o arferion ym maes troseddau ieuenctid (yr Adolygiad Rheoli Lleol). Bydd yr YJB yn monitro cynnydd yr adolygiadau yn erbyn amserlen benodol. Ar ôl cael Adolygiad Rheoli Lleol, bydd yr YJB yn cadarnhau a yw’r adroddiad yn bodloni’r disgwyliadau. Bydd yr YJB yn gwneud argymhellion ychwanegol ynghylch camau gweithredu lleol lle bo angen wrth ymateb i Adolygiad Rheoli Lleol. Bydd yr YJB yn disgwyl i ganfyddiadau pob adolygiad gael eu rhannu â’r Bwrdd Lleol Diogelu Plant perthnasol.

27. Bob blwyddyn, bydd yr YJB yn dadansoddi’r Adolygiadau Rheoli Lleol a ddaeth i law. Bydd yn rhannu’r gwersi sydd i’w dysgu o’r dadansoddiad hwn â Thimau Troseddau Ieuenctid, a bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ar wefan yr YJB. Wrth gyflawni eu busnes, mae angen i Fyrddau Lleol Diogelu Plant fod yn ymwybodol o ganfyddiadau Adolygiadau Rheoli Lleol unigol o ddigwyddiadau difrifol yn yr ardal y maent yn gyfrifol amdani, ac unrhyw wersi perthnasol sydd i’w dysgu o adroddiad dadansoddi blynyddol yr YJB, ac mae angen i’r Byrddau weithredu ar y canfyddiadau a’r gwersi hynny.

28. Mae’r YJB yn ymwneud yn weithredol â Grŵp Adolygu Achosion Difrifol Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwersi sydd i’w dysgu o adolygiadau yn y dyfodol yn cael eu rhannu’n well. Mae’r buddsoddiad a wnaeth yr YJB yn ystod hydref y llynedd i greu swydd ar lefel uchel yn nhîm YJB Cymru, ar gyfer unigolyn a fydd yn gyfrifol am ofal cymdeithasol, wedi cynyddu gallu’r YJB i symud yr agenda ddiogelu strategol yng Nghymru yn ei blaen, ac mae wedi cynyddu ei allu i gefnogi Timau Troseddau Ieuenctid ar lefel weithredol o ran diogelu pobl ifanc.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr
Ebrill 2010

1 - Sustaining the Success, YJB, Hydref 2004

2 - Canfyddiadau'r Cydarolygiadau o Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru 2003-2008, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Medi 2009

3 - Independent Review of Restraint in Juvenile Secure Settings, Peter Smallridge ac Andrew Williamson, Rhagfyr 2008